



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

CANLLAWIAU

# Cronfa Cymorth Dewisol: hysbysiad preifatrwydd

Sut byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir gennych a pha mor hir y byddwn yn ei chadw.

Cyhoeddwyd gyntaf: 5 Ionawr 2018

Diweddarwyd ddiwethaf: 16 Mawrth 2023

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cronfa-cymorth-dewisol-hysbysiad-preifatrwydd-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

# Cynnwys

## Cefndir

Beth ydym yn ei wneud gyda'ch gwybodaeth?

Gyda phwy yr ydym yn rhannu'r wybodaeth?

Am faint o amser y byddwn yn cadw eich gwybodaeth?

Eich hawliau o ran eich gwybodaeth

Gwybodaeth bellach a manylion cyswllt

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cronfa-cymorth-dewisol-hysbysiad-preifatrwydd-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

# Cefndir

Mae NEC Software Solutions (NEC), ar ran Llywodraeth Cymru, yn derbyn gwybodaeth bersonol am ymgeisydd yn uniongyrchol gan y cleient neu gan unigolyn sydd â chaniatâd i weithredu ar ran y cleient. Heb y wybodaeth hon ni ellir prosesu'r cais. Mae'n cynnwys y canlynol:

- enw
- cyfeiriad
- Rhif Yswiriant Gwladol
- dyddiad geni
- manylion budd-dal yr Adran Gwaith a Phensiynau
- problemau iechyd
- gwybodaeth am unrhyw ddibynyddion sy'n byw ar yr aelwyd
- mae data technegol yn cynnwys cyfeiriad protocol rhyngrwyd (IP), math a fersiwn y borwr, gosod a lleoliad parth amser, mathau a fersiynau ategyn porwr, system weithredu a'i lwyfan a thechnoleg arall ar y dyfeisiau rydych chi'n eu defnyddio i gael mynediad i'n gwefan

Llywodraeth Cymru yw'r rheolwr data ac NPS yw'r prosesydd data.

## Beth ydym yn ei wneud gyda'ch gwybodaeth?

### Pwerau cyfreithiol

Mae Adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud unrhyw beth y maen nhw'n ei ystyried sy'n briodol i hyrwyddo lles cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol Cymru. Mae Adran 70 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi cymorth ariannol, ar ffurf grant, benthyciad neu warant, i unrhyw berson sy'n ymwneud ag unrhyw

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cronfa-cymorth-dewisol-hysbysiad-preifatrwydd-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

weithgaredd a fydd, ym marn Gweinidogion Cymru, yn cyfrannu at gyflawni unrhyw amcan y maent am ei gyflawni wrth arfer eu swyddogaethau.

Mae Adran 71 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn rhoi grym i Weinidogion Cymru wneud unrhyw beth yr ystyrir ei fod yn hwyluso arfer unrhyw un o'u swyddogaethau, ac unrhyw beth sy'n gydnaws â hynny neu'n atodol i hynny.

## Sail gyfreithlon

O dan Erthygl 6(e) mae prosesu yn angenrheidiol ar gyfer perfformio tasg sy'n cael ei chynnal er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol sydd wedi ei freinio yn y rheolydd.

O dan Erthygl 9(2)(g) mae prosesu yn angenrheidiol am resymau budd y cyhoedd sylweddol sydd, ar sail cyfraith yr Undeb neu gyfraith yr Aelod-wladwriaeth, yn gymesur i'r hyn y mae'n ceisio'i gyflawni, yn parchu hanfod yr hawl i ddiogelu data ac yn darparu ar gyfer mesurau addas a phenodol i ddiogelu hawliau sylfaenol a buddiannau'r gwrthrych y data.

O dan ein cylch gwaith fel rheolydd data, mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth sy'n dod i law at y dibenion isod. Mae'r dibenion hyn yn angenrheidiol er mwyn gwneud tasgau cyhoeddus ac wrth arfer ein hawdurdod swyddogol:

- pennu cymhwysra ar gyfer cymorth ariannol
- asesu a oes angen rhoi cymorth ariannol i'r cleient
- pennu lefel y cymorth ariannol a fyddai'n cael ei roi i'r cleient, os penderfynir bod ei angen
- rhoi manylion am y cleient, gan gynnwys enw a chyfeiriad, a'r dyfarniad a roddir i'r trydydd partion fel y nodir isod i gyflawni'r dyfarniad
- rhoi manylion i asiantaethau eraill sydd mewn sefyllfa i roi fwy o cymorth i'r ymgeisydd er enghraifft Cyngor ar bopeth Rhondda Cynon Taf, Cyngor ar

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cronfa-cymorth-dewisol-hysbysiad-preifatrwydd-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

bopeth Caerfyrddin, Pennysmart a Groundwork

- at ddibenion Ystadegol ac Ymchwil – bydd yr holl ddata yn ddienw
  - i lywio, gwella a dylanwadu ar y gwasanaeth a ddarperir
  - i fonitro a thargedu cyllid yn effeithiol
  - i fonitro perfformiad y Gronfa Cymorth Dewisol
  - i gysylltu â meysydd polisi eraill Llywodraeth Cymru
- cyhoeddiadau (ffeithlun) - bydd yr holl ddata yn ddienw
  - ceisiadau gan sefydliadau allanol ar wefan Llywodraeth Cymru

## Gyda phwy yr ydym yn rhannu'r wybodaeth?

Bydd yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei gadw amdanoch chi a'ch cais yn cael ei rhannu â sefydliadau sy'n gweithio ar ran Llywodraeth Cymru i gyflawni eich cais.

Y sefydliadau hynny yw:

- Atebion Meddalwedd NEC
- Family Fund Business Services
- The Furniture Service (TFS)
- PayPoint agents
- AO Retail Limited
- Park Group (clothing vouchers)
- yr heddlu, pan fo amheuaeth o dwyll

## Am faint o amser y byddwn yn cadw eich gwybodaeth?

Bydd Llywodraeth Cymru yn cadw'r data am 7 mlynedd ar y mwyaf ar ôl diwedd

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://www.llyw.cymru/cronfa-cymorth-dewisol-hysbysiad-preifatrwydd-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

y flwyddyn ariannol y mae'r data hwnnw yn ymwneud ag ef yn unol â gofynion archwilio. Ar ôl y pwynt hwn bydd y data yn ddiennw ac efallai y bydd y data yn cael ei ddefnyddio mewn astudiaethau achos a/neu ei ddinistrio.

## Eich hawliau o ran eich gwybodaeth

Mae gennych yr hawl i:

- gael mynediad at y data personol amdanoch sy'n cael ei phrosesu gennym
- gofyn i ni gywiro camgymeriadau yn y data hwnnw
- gwrthwynebu'r gwaith prosesu - o dan rai amgylchiadau - i dynnu'ch cais yn ôl cyn iddo gael ei brosesu a chyn i benderfyniad gael ei wneud i gymeradwyo neu wrthod
- dileu'ch data, mewn rhai amgylchiadau
- cyflwyno cŵyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data (manylion cyswllt isod)

## Gwybodaeth bellach a manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw a'i defnyddio, neu os hoffech arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Tîm Cynhwysiant Ariannol  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cronfa-cymorth-dewisol-hysbysiad-preifatrwydd-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

E-bost: [financialinclusion@llyw.cymru](mailto:financialinclusion@llyw.cymru)

Helen Morris  
Swyddog Diogelu Data  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
CAERDYDD  
CF10 3NQ

E-bost: [data.protectionoficer@llyw.cymru](mailto:data.protectionoficer@llyw.cymru)

Rachel Goodman  
Swyddog Diogelu Data  
Atebion Meddalwedd NEC  
BizSpace  
Llawr 1af  
Canolfan iMex  
575-599 Maxted Rd  
Hemel Hempstead  
HP2 7DX

E-bost: [dpo@necsws.com](mailto:dpo@necsws.com)

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire  
SK9 5AF

Rhif ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113  
Gwefan: [www.ico.gov.uk](http://www.ico.gov.uk)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cronfa-cymorth-dewisol-hysbysiad-preifatrwydd-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**

Drlllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cronfa-cymorth-dewisol-hysbysiad-preifatrwydd-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).